

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465
CASTELL-NEDD I'R FENNI (CYFFORDD
SALEYARD A CHYFFORDD GLANBAIDEN)
(TERFYN CYFLYMDER 30 MYA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(a), 84(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar *****202-.

Effaith y Gorchymyn fydd cyflwyno terfyn cyflymder o 30 mya ar y darnau o gefnffordd yr A465 wrth Gyffordd Saleyard a Chyffordd Glanbaiden a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Bydd y Gorchymyn a wnaed yn dirymu Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Aberhonddu a Ffordd Trefynwy, y Fenni, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 20 mya) 2022 (O.S. 2022/422 (Cy. 103)).

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o ** ***** 2023 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed, y planiau a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu, yn rhad ac am ddim, yn:

Llyfrgell Bryn-mawr, 3 Sgwâr y Farchnad, Bryn-mawr, Glynebwy, NP23 4AJ; a

Hyb Cymunedol a Llyfrgell y Fenni, Neuadd y Dref, Cross Street, Y Fenni, NP7 5HD;

neu gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd> neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1604251.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A465 NEATH TO ABERGAVENNY
TRUNK ROAD (SALEYARD AND
GLANBAIDEN JUNCTIONS) (30MPH SPEED
LIMIT) ORDER 202-**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), 84(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on *****202-.

The effect of the Order will be to introduce a 30 mph speed limit on the lengths of the A465 trunk road at Saleyard and Glanbaiden Junctions described in the Schedules to this Notice.

The A40 Trunk Road (Brecon Road and Monmouth Road, Abergavenny, Monmouthshire) (20 mph Speed Limit) Order 2022 S.I. 2022 No. 422 (W. 103) will be revoked by the made Order.

During a period of 6 weeks from ***** 2023 a copy of the this Notice, the made Order, the plans and the Order being revoked may be inspected, free of charge, at:

Bryn-mawr Library, 3 Market Square, Bryn-mawr, Ebbw Vale NP23 4AJ; and

Abergavenny Community Hub and Library, Town Hall, Cross Street, Abergavenny, NP7 5HD;

or can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1604251.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1
CEFNFFORDD YR A465
(CYFFORDD GLANBAIDEN)**

Cerbyttfordd gylchredol gyfan cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni wrth Gyffordd Glanbaiden yn Sir Fynwy, gan gynnwys ei chyffordd sy'n arwain at Courtyard Cottage am bellter o 30 o fetrau a'i chyffordd â'r B4246 am bellter o 19 o fetrau.

**ATODLEN 2
CEFNFFORDD YR A465
(CYFFORDD SALEYARD)**

Y darn o briffordd yng nghyffiniau Cyffordd Saleyard yn Sir Fynwy o'r enw Y Brif Ffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A465 hyd at ei chyffordd â Station Road a ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465.

Y darn o briffordd yng nghyffiniau Cyffordd Saleyard yn Sir Fynwy o'r enw Station Road sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Brif Ffordd hyd at ganol ei chyffordd â'r allanfa o gilfan safle bws Station Road.

**SCHEDULE 1
A465 TRUNK ROAD
(GLANBAIDEN JUNCTION)**

The full circulatory of the A465 Neath to Abergavenny trunk road at Glanbaiden Junction in the County of Monmouthshire, including its junction leading to Courtyard Cottage for a distance of 30 metres and its junction with the B4246 for a distance of 19 metres.

**SCHEDULE 2
A465 TRUNK ROAD
(SALEYARD JUNCTION)**

The length of highway in the vicinity of Saleyard Junction in the County of Monmouthshire known as Main Road that extends from a point 20 metres north of its junction with the A465 eastbound exit slip road to its junction with Station Road and the A465 eastbound entry slip road.

The length of highway in the vicinity of Saleyard Junction in the County of Monmouthshire known as Station Road that extends from its junction with Main Road to the centre of its junction with the exit from Station Road bus stop layby.